**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

20 Hydref 2016

Annwyl Aelod o'r Cynulliad,

Rwy'n ysgrifennu atoch gyda'r datblygiadau diweddaraf am yr hyn sy'n cael ei wneud gyda Tata Steel a'i fusnes yng Nghymru ers fy llythyr diwethaf atoch ar 12 Medi ac yn dilyn fy nghyfarfod â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddur ar 28 Medi.

Dros y mis diwethaf, ni fu pall ar ein hymdrechion i ddiogelu dyfodol tymor hir a chynaliadwy i holl waith Tata Steel yn ogystal ag i'r diwydiant dur ehangach yng Nghymru. Rydyn ni'n parhau i drafod sawl ffynhonnell gymorth bosibl gyda'r cwmni, bob un yn cydymffurfio â'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer y sector dur a'r amodau y bydd eu hangen arnom fel tystiolaeth o'u hymrwymiad. Wrth reswm, wrth i Tata Steel ystyried ei strategaeth ar gyfer ei weithgareddau yn Ewrop, ni ellir rhoi addewid un ffordd na'r llall ynghylch y cymorth hwn ac ailadroddais y pwyntiau hyn, yn ogystal â chadarnhau ein hymrwymiad i'r diwydiant dur, yn ystod fy nghyfarfod â Phrif Weithredwr Tata Steel ddiwedd mis diwethaf.

Ar 16 Medi, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol "Adroddiad ar Ofynion y Sector Cyhoeddus am Ddur yn y Dyfodol a Chapasiti a Galluoedd y Sector Dur", sy'n ystyried i ddefnyddio trefniadau caffael i gefnogi'r sector dur. Dyma oedd un o brif amcanion Ffrwd Gwaith Caffael Tasglu Tata Steel. Rydym wedi gweithio hefyd i leihau costau ynni trwy fesurau arbed ynni'n Cynllun Diogelu'r Amgylchedd.

O ran ardrethi busnes, aeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio ati i ailbrisio eiddo'n ddiweddar ac o ganlyniad, mae gwerth ardrethi ar draws y sector dur wedi gostwng yn sylweddol gan effeithio'n awr ar filiau ardrethi safleoedd dur yng Nghymru. Daw ein cynllun rhyddhad ardrethi dros dro i rym yng Nghymru o Ebrill 2017. Llywodraeth Cymru fydd yn talu amdano ac mae'n golygu y caiff trethdalwyr yng Nghymru deimlo effaith y gostyngiad yn eu biliau ar unwaith o fis Ebrill 2017, yn wahanol i drethdalwyr yn Lloegr.

Gan edrych ar y diwydiant dur ehangach, a ninnau'n cydweithio'n glos â Celsa UK a Liberty Steel, y ddau ohonyn nhw'n gwmnïau angori allweddol, yn ogystal â chyda chwmnïau'r gadwyn gyflenwi a chwmnïau sy'n gysylltiedig yn fwy cyffredinol â'r sector, trist oedd clywed y newyddion am AIC wythnos ddiwethaf. Ers fy Nghwestiynau i'r Gweinidog ar 5 Hydref, mae fy swyddogion wedi siarad â'r Gweinyddwyr i bwyso arnyn nhw i drafod â'r Undebau Llafur. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda'r Gweinyddwyr i'w cael i werthu'r busnes fel busnes byw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym eto i weld yr ymateb sydd ei angen gan Lywodraeth y DU i gefnogi canlyniad positif i'r ymdrechion i ddiogelu'r diwydiant dur. Rydym wedi dweud yn gyson bod angen iddi gymryd camau ar fyrder i leihau a diddymu'r gwahaniaeth rhwng prisiau ynni yn y DU ac yn Ewrop a sicrhau ateb teg i broblem Cynllun Pensiynau British Steel. Mae Prif Weinidog Cymru wedi gofyn i Brif Weinidog y DU am dawelwch meddwl ynghylch y pwyntiau hyn ac wedi tynnu ei sylw at y galw amlwg am ymyriadau ar draws y DU i arbed ynni ar raddfa fawr ac am ymchwil a datblygu a allai fod yn hanfodol i helpu'r diwydiant dur a diwydiannau eraill sy'n ddwys ar ynni i fod yn gystadleuol yn y tymor hir.

Rwy'n nodi bwriad Llywodraeth y DU i ddatblygu Strategaeth Ddiwydiannol i'r DU ac wrth fynd â'r gwaith yn ei flaen, mae'n bwysig bod Llywodraeth y DU yn cydweithio'n adeiladol â ni. O ystyried bod y diwydiant dur yn sector sylfaen allweddol, mae'n bwysig bod dur yn elfen hanfodol o'r Strategaeth newydd ac rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i bwysleisio hynny. Byddaf yn pwyso am fwy o gydnabyddiaeth o gyfraniad y diwydiannau sylfaen at atgyfnerthu'r economi ehangach a'r sector gweithgynhyrchu, yn ogystal â chydnabod pwysigrwydd arloesi ac ymchwil a datblygu.

Rwy'n credu'n gryf bod gan ddiwydiant dur ddyfodol cynaliadwy yng Nghymru ac er bod nifer o heriau mawr yn ein hwynebu, sef y gorgynhyrchu rhyngwladol a'r angen am fwy o ymdrechion i ddiogelu masnach, rhaid peidio â 'gwneud yn fach' o ddyfodol y diwydiant dur.

Byddaf yn parhau i gadw bysedd Aelodau ar byls y datblygiadau diweddaraf.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure